

# madeinroath

## Arddangosfa Agored 2022

Galw am artistiaid

Dyddiadau arddangos:

Mawrth 2-5 11am - 5pm

Rhagolwg: Mawrth 4, 6-8pm

Mae MiR yn eich gwahodd i gyflwyno gwaith ar gyfer yr Arddangosfa Agored ym mis Mawrth 2022, ac yn dilyn seibiant o ddwy flynedd rydym yn hynod falch o gyhoeddi mai g39 bydd y lleoliad eleni.

Eto eleni, does dim ffi i gyflwyno'ch gwaith, dim cyfyngiad oedran, gallu na phrofiad, a bydd pob gwaith sy'n unol a'r criteria isod yn cael ei arddangos. Mae'r agwedd yma, sef galwad gwbl agored, yn un rydym yn falch o'i arloesi ers 2009. Mae bob tro yn cyflwyno arddangosfa ddiddorol, gynhwysol ac eclecticig ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld gwaith newydd eleni.

Rhestr:

A yw'r gwaith yn 2D ac oes modd ei hongian ar wal?

A yw'r gwaith yn ddim mwy na 100cm x 100cm hyd a lled a dyfnder o ddim mwy na 30cm? (neu 39.5 modfedd x 39.5 modfedd x 12 modfedd imperial)

Ydych chi'n credu bod y gwaith yn addas ar gyfer cynulleidfa ddiwylliannol/oedran amrywiol? \*

*Oes mae 'ydi/ydw' yw'r ateb i'r tri chwestiwn uchod, dyma'r manylion sut i gyflwyno'ch gwaith:*

**AR** y 17eg a'r 19eg Chwefror rhwng canol dydd a 7yh cyflwynwch eich gwaith i g39, Oxford Street, Caerdydd CF24 3RF

*Os nad ydych yn gallu cyflwyno eich gwaith am resymau symudedd neu resymau eraill yn ymwneud â mynediad cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost/rhif ffôn isod a*

*threfnwn i gasglu'r gwaith ar eich cyfer. Byddwch yn derbyn derbynneb am eich gwaith. Mae'r dyddiad cau'r un fath.*

### Telerau ac Amodau Arddangosfa Agored madeinroath 2022

- 1. Arddangos/Fframio** – Mae'n rhaid i bob darn o waith celf sydd wedi ei fframio/ymestyn ein cyrraedd yn barod i'w hongian gyda phlatiau drych wedi eu hatodi ar y cefn, hanner ffordd i lawr ochrau fertigol y gwaith. Bydd gwaith heb ei fframio yn cael eu pinio, neu eu glynu gyda gludydd o'r cefn. Ni fyddwn yn derbyn gwaith sydd yn fwy na'r gofynion.
- 2. Cyflwyno gwaith.** Mae'n rhai bod y gwaith yn ein cyrraedd erbyn yr amseroedd a nodir uchod. Ni fydd unrhyw gynigion ar ôl yr amseroedd hyn yn cael eu hystyried.
- 3. Safon y gwaith** – dylai pob pob darn o waith gael ei gyflwyno i'r safon uchaf phosib a bod yn ddiogel i'w hongian/arddangos. \* Mae angen i bob darn o waith fod yn weddus i gynulleidfa o wahanol ddiwylliant/oedran, ni fyddwn yn derbyn unrhyw ddelweddau a allai beri tramgwydd. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos fel y gwelwn yn ddoeth. Os am unrhyw reswm rydych yn ansicr o addasrwydd eich gwaith, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost isod fel y gallwn drafod. Mae'r penderfyniad terfynol gyda MiR.
- 4. Hongian eich gwaith.** Bydd eich gwaith yn cael ei hongian/arddangos gan dîm technegol g39 gyda phob gofal, i sicrhau ni fydd difrod yn digwydd. Bydd rhestr o'r gwaith gyda phrisiau ar gael i'r ymwelwyr.
- 5. Gwerthiant** Nid yw'n ofynnol bod gwaith yr arddangosfa ar werth. Os ydyw, fodd bynnag, bydd comisiwn o 30% yn mynd tuag at gostau'r sioe, felly cofiwch ystyried hyn wrth brisio eich gwaith. Bydd gwerthiannau yn cael eu cyfrifo ar ddiwedd yr arddangosfa. Bydd g39 yn cadw cofnodion a'r arian tan ar ôl yr arddangosfa ac yn cael ei ddsbarthu gan MiR.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch gwaith, e-bostiwch neu ffoniwch ni ar y manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda. Drïwn ni'n gorau glas i helpu.

Please don't forget, your name and contact details should also be written on the back of the work, this makes hanging/collating/listing the work easier for us.  
Thank you!

**If you have any questions just drop us an email, [gail@madeinroath.com](mailto:gail@madeinroath.com) or call 07930397982**

**We look forward to seeing your work!**

Cyn i chi gyflwyno eich gwaith celf, torrwrch ar hyd y llinell ddotiog ac atodwch y manylion isod ar gefn eich gwaith

.....

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Ffon:

Ffôn Symudol:

Ebost:

Teitl y Gwaith

.....

Pris y Gwaith (gan gynnwys 30% comisiwn)

£.....

Llofnod.....

*Gan lofnodi uchod rydych yn cadarnhau eich bod yn cytuno â Thelerau ac Amodau Arddangosfa Agored madeinroath isod; os nad yw eich gwaith yn cadw i'r telerau hyn, ni fydd eich gwaith yn cael ei arddangos.*

.....

Torrwrch ar hyd y llinell ddotiog ac atodwch y manylion hyn ar flaen eich gwaith ar ôl ei lapio.

Teitl y Gwaith

.....

Artist

.....

Cyfrwng

.....

Cyfanswm (gan gynnwys 30% comisiwn)

£ .....